# Cyngor Cymuned Llanberis

***Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar y 13eg Medi 2023 am 19.00 yn Y Ganolfan, Llanberis.***

1. ***Croeso'r Cadeirydd*** Croesawyd Cyngorwyr i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

2. ***Cyfle i Aelod(au) o'r cyhoedd sydd yn bresennol holi'r Cyngor ar faterion priodol***. Nid oedd yna aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. ***Cofnodi Presenoldeb*** – Cyng. Nia Jones. Cyng. Louise Price. Cyng. Kim Jones. Cyng. Helen Sharp. Cyng. Llinos Pritchard (Cadeirydd.) Cyng. Kevin Morris Jones. Cyng. Rhys ap Gwilym. Cyng. Iwan Harding. Cyng. Heather Lynn Jones.

   ***Cyflwynwyd ymddiheuriadau*** gan y Cyng. Gwilym Evans (Is Gadeirydd) Cyng. Trystan Thomas. Cyng. Iola Owen. Cyng. Emlyn Baylis (rhan gyntaf o'r cyfarfod yn unig.)

4. ***Cyflwyniad Swyddog Priffyrdd Cyngor Gwynedd***. Roedd y swyddog wedi cyflwyno ymddiheuriadau ar fyr rybudd ac fe gytunwyd y byddai cynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned yn cyfarfod gyda'r swyddog er trafod pryderon ynglyn a chyflwr palmentydd y gymuned ar yr 18eg Medi 2023 am 13.00 ger adeilad siop 'V12'.

5. ***Fferyllfa Llanberis.*** Croesawyd Mr Arfon Bebb i'r cyfarfod a diolchwyd iddo am rhoi ei amser i'r Cyngor er trafod sefyllfa ddiweddaraf ynglyn a Fferyllfa Llanberis. Nodwyd ei fod yn rhan o wasanaeth 'Fferyllwyr Llyn' a bod y cwmni wedi sefyldu ers sawl blwyddyn bellach. Mae gan y cwmni bump fferyllfa yn gweithredu ar draws Gwynedd. Nodwyd syndod mawr bod y fferyllfa yn Llanberis yn cau gan adael pentref prysur Llanberis heb wasanaeth fferyllfa.

   Roedd y cwmni wedi cychwyn trafodaethau gyda chwmni 'Rowlands' er adnabod ffordd ymlaen er parhau gyda gwasanaeth fferyllfa yn Llanberis. Roedd y cwmni 'Fferyllwyr Llyn' wedi cyflwyno cais i'r Bwrdd Iechyd ac fe gadarnhawyd bod y Bwrdd Iechyd mewn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ac bod y mater nawr mewn cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod telerau meddiant eiddo wedi ei cytuno gyda perchennog 'Brook House'.

   Roedd gwir obaith byddai popeth wedi ei gytuno ac bod y fferyllfa yn gweithredu yn llawn erbyn diwedd mis Hydref. Pe bydd yna anawsterau, yna o bosib bydd hyn yn lithro i ddiwedd mis Tachwedd fan hwyraf.

   Er y posibilrwydd bydd ychydig oedi, nodwyd bydd yna wasanaeth cyfyngedig yn cael ei rhoi i'r gymuned o'r 1af Hydref ymlaen fel trefniant dros dro. Bydd gwasanaeth sylfaenol mewn lle am y mis cyntaf hyd bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ddiwedd. Ni rhagwelwyd byddai sail gwrthwynebu ac roedd hyder na fyddai anawsterau yn codi.

   Nodwyd bydd y gwasanaeth fferyllfa yn cychwyn fel gwasanaeth o'r newydd ac nid yn barhad o wasanaeth blaenorol. Nodwyd byddai angen recriwtio staff ond nodwyd bod Fferyllydd wedi ei benodi ac ar gael i gychwyn y gwasanaeth yn Llanberis ar y cyfle cyntaf.

   Nodwyd bydd y fferyllfa yn edrych i gynnig gwasanaeth danfon meddyginiaeth i gartrefi pe bydd yna wir angen am y gwasanaeth gan gleifion yn y gymuned.

   Nodwyd pwysicrwydd cyflwyno'r gwasanaeth yn y Gymraeg ac fod balchder enfawr bod hyn yn digwydd. Nodwyd gan Mr Bebb bod y model wasanaeth wedi gweithio yn ardderchog dros amser ac

roedd pawb yn edrych ymlaen i gychwyn ar wasanaethu cymuned Llanberis mor fuan ac oedd bosibl.

Cyflwwynwyd diolch ar ran y Cyngor Cymuned ac trigolion Llanberis i Mr Bebb am ei ymroddiad ac am yr holl waith mae wedi ei wneud er sicrhau bod gwasanaeth fferyllfa yn gallu parhau yn Llanberis at y dyfodol.

**6.** ***Newid Trefn Agenda*** – Penderfynwyd gan y Cadeirydd, a hyn heb rybudd neu gynig, bod am newid trefn yr agenda ac fe benderfynwyd dod a trafodaethau 'Y Fynwent' ymlaen ar yr agenda.

***Cerrig Coffa*** - cadarnhawyd gan y Clarc ei fod wedi cwblhau asesiad o gyflwr holl Gerrig Coffa sydd yn y Fynwent a bod adroddiad manwl eisoes wedi ei ddosbarthu i pob Cynghorydd.

Cadarnhaodd y Clarc ei fod wedi gweithredu yn unol a'r asesiad ac yn unol a'r hyn oedd wedi ei gyflwyno yn yr adroddiad. Roedd y weithred hyn er lleihau risg i'r rhai oedd yn ymweld a'r Fynwent ac fel dilyniant, lleihau atebolrwydd a risg i'r Cyngor Cymuned sydd drwy ei cyfrifoldebau yn llwyr gyfrifol am ddiogelwch a rheolaeth oddi fewn y Fynwent.

Yn dilyn gweithredu ar faterion risg a diogelwch gan y Clarc nodwyd fod ymgymerwr lleol wedi ysgrifennu at y Cyngor Cymuned yn nodi pryder ynglyn a'r gwaith oedd wedi ei gwblhau. Roedd y Cyngor Cymuned wedi ymateb ac wedi cydnabod na efallai bod trefn arferol wedi ei ddilyn.

Nodwyd gan y Clarc ei fod wedi gweithredu yn unol a chanllawiau a oedd wedi ei cyhoeddi mewn dogfen gan Y Wenidogaeth Cyfiawnder; mewn dogfen gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol a dogfen a gyhoeddwyd gan Yr Eglwys Yng Nghymru. Nodwyd gan y Clarc na fod yna archwiliad tebyg wedi ei gwblhau gan y Cyngor Cymuned eisoes ac felly, er diogelu'r cyhoedd a sicrhau safle mor ddiogel a phosib yn y Fynwent, doedd dim dewis ond gweithredu yn unol a'r asesiad.

Nodwyd gan y Cadeirydd ei bod wedi derbyn cwynion bod rhai Cerrig Coffa wedi ei gorffwys ar y llwybr ac yn achosi risg pellach. Cyfeiriodd y Clarc at yr adroddiad manwl a oedd eisoes wedi ei ddosbarthu a oedd yn profi na fod unrhyw Garreg Coffa wedi ei gorffwys ar lwybr y Fynwent yn ystod y gwaith a oedd wedi ei gwblhau.

***Mynwent Yr Eglwys*** – Cadarnhawyd bydd y Cyngor Cymuned yn ariannu gwaith torri glaswellt mynwent Yr Eglwys fel ail doriad y flwyddyn. Cadarnhawyd bydd y gwaith yn cael ei gwblhau gan gwmni cymwys yn ystod mis Medi. Bydd y Clarc yn cadarnhau'r trefniant gyda'r contractwr ar y cyfle cyntaf.

**7.** ***Datgan Buddiant*** - Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau yn yr agenda.

***8. Cadarnhau Cofnodion cyfarfod y 12fed Gorffennaf 2023***. Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gywir ac yn adlewyrchiad o'r trafodaethau.

***Cynnigwyd gan y Cyng. Rhys ap Gwilym. Eilwyd gan y Cyng. Kim Jones.***

**9.** ***Materion yn codi o'r cofnodion.*** Goleuadau Gwyl Y Nadolig – Nodwyd bod angen goleuo saith polyn (golau stryd) yn ychwanegol i'r rhai presennol. Nodwyd yn ol y gyllideb bod yna £2K wedi ei neilltuo tuag at drefniadau Gwyl Y Nadolig ond na fod gwariant wedi ei ymrwymo yn erbyn y gyllideb hyd yma.

Nodwyd bydd dathliadau a trefniadau Gwyl Nadolig pentref Llanberis yn cael ei drefnu dan warchodaeth Cyngor Cymuned Llanberis eleni. Diolchwyd i'r trefnwyr am ei gwaith.

Gofynwyd bod cais am gymorth ariannol yn cael ei gyflwyno i Grid Cenedlaethol am y swm £3K. Gofynwyd bod y Clarc yn cyflwyno cais ar ran y Cyngor Cymuned. Bydd y cais am gymorth

ariannol yn gysylltiedig a pwrcasu x7 set oleuadau Nadolig newydd. Cynnigwyd bod y goleuadau yn cael ei pwrcasu fel mater o flaenoriaeth.

***Cynnigwyd gan y Cyng. Heather Lynn Jones. Eilwyd gan y Cyng. Rhys ap Gwilym.***

***10. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Arbennig 7fed Medi 2023.***

***Cynnigwyd gan y Cyng. Kim Jones. Eilwyd gan y Cyng. Helen Sharp***

**11.** ***Materion yn codi o'r cofnodion Cyfarfod Arbennig (sydd ddim ar yr agenda.)*** Dim materion yn codi. Trafodaethau ynglyn ac Y Fynwent wedi ei gynnal cyn yr eitem.

**12.** ***Rheolau Sefydlog Y Cyngor Cymuned.*** Gofynwyd bod yr eitem yn trosglwyddo i'r cyfarfod ym mis Hydref. Nodwyd gan y Clarc bod y ddogfen wedi ei ddosbarthu i Gynghorwyr ar y 12fed Fehefin a bod yr eitem eisoes wedi ei ohirio.

***13. Ffyrdd a Phalmentydd.***

- ***Parcio Cilfan Parcio Nantperis*** – nodwyd pryder gan Gynghorwyr bod cerbydau yn rhwystro mynediad ar droed at lwybr sydd yn arwain at y castell. Roedd wir bryder byddai'r parcio anystyriol yn arwain at ddamwain. Er bod llinellau melyn dwbl ar y ffordd nid oedd y rhain yn ymestyn ar draws y mynediad ac felly, o bosib, nid oedd cerbydau yn torri rheolau parcio.

  Cynnigwyd bod y Cyngor Cymuned yn cysylltu gyda Gwesty Fictoria gan ofyn iddynt ystyried gosod arwydd priodol ar y safle er ceisio rhwystro parcio anystyriol ar y fynedfa.

***Cynnigwyd gan y Cyng. Rhys ap Gwilym. Eilwyd gan y Cyng. Nia Jones***

- ***Torri Coed Nantperis*** – datganwyd pryder gan y Cadeirydd na fod gwaith tocio coed yn Nantperis a fu wedi ei gwblhau gan gwmni yn gweithredu ar ran gwmni cyflenwi trydan wedi ei gwblhau i safon ddisgwyliedig. Nodwyd gan Gynghorydd mai blaenoriaeth y cwmni byddai sicrhau cyflenwad trydan i gartrefi a busnesau ac mai mater i berchennog y coed byddai sicrhau edrychiad y coed.

- ***Cyfyngiad Parcio Arfaethedig-Maes Derlwyn a Blaen Ddol*** – cefnogwyd y cais mewn egwyddor. Dim gwrthwynebiadau.

- ***Rhybudd Cau Ffyrdd-Ffordd Ty Du-Cau 04/09/2023*** – nodwyd derbyn y rhybudd.

- ***Rhybudd Cau Ffyrdd-Lon y Graig-Cau 30/08/2023*** – nodwyd derbyn y rhybudd

- ***Rhybudd Cau Ffyrdd-Lon Y Glyn-Cau 02/10/2023*** – nodwyd derbyn y rhybudd

- ***Palmant Gostwng-Dol Eilian*** – Mynegwyd pryder bod ceir yn rhwystro mynediad gyda cadair olwyn. Roedd pryder enfawr bod cerbydau yn parcio wrth ochr safle sydd yn bwrpasol ar gyfer hwyluso mynediad gyda phram a chadair olwyn. Nodwyd bydd arwyddion gyda paent ffordd yn cael ei rhoi ar y safle gan swyddogion Cyngor Gwynedd a bydd disgwyl bod y gwaith wedi ei gwblhau oddi fewn chwe wythnos.

*14* ***Llwybrau Cyhoeddus*** – dim i'w adrodd.

*15* ***Safle Chware Y Lanfa - Biniau Ysbwriel a Baw Ci***. Fe ddatgan pryder gan Gynghorwyr bod problem ysbwriel oddi fewn y llecyn chware yn cynyddu a bod yna gynydd mewn baw ci oddi fewn y llecyn chware.

Nodwyd na fod bin ysbwirel ar y safle ei hunnain ond bod yna ddau fin ysbwriel nepell o'r safle. Gofynwyd bod y Clarc yn ymweld a'r safle gan gysylltu a Chyngor Gwynedd gan ofyn iddynt ail leoli un bin ysbwriel oddi fewn y llecyn chware.

***16 Y Fynwent*** – noder bod y materion wedi ei drafod dan eitem rhif 6.

***17 Gohebiaeth***.

- ***Hysbysiad Ras Ultra Trail Marathon-2024*** – fe ddatgan pryder mawr gan Gynghorwyr ynglyn ar nifer helaeth bydd yn cymryd rhan yn y weithgaredd ac y pwysau ychwanegol y bydd hyn yn ei rhoi ar cymuned fychan. Cynnigwyd bod trefnwyr gweithareddau yn gorfodi ei cyfranogwyr i ddefnyddio safle Glyn Rhonwy ar gyfer parcio ceir gan drefnu cludiant Parcio a Teithio i'r pentref. Gofynwyd bod y Clarc yn cysylltu gyda Parc Padarn i ddatgan pryder y Cyngor Cymuned ynglyn a maint, a nifer digwyddiadau sydd yn cael ei caniatau yn Llanberis.

  ***Cynnigwyd gan y Cyng. Rhys ap Gwilym. Eilwyd gan y Cyng. Nia Jones***

- ***Cais Cymorth Peiriant Cynnal a Chadw*** – nodwyd na fod angen ystyried y cais ymhellach gan bod cyfranwr amgen wedi ariannu pryniant y peiriant i'r gwirfoddolwr.

- ***Gohebiaeth Grid Cenedlaethol-Cynnal a Chadw safle chware Ger y Llyn*** – roedd cwmni Grid Cenedlaethol wedi hysbysu'r Cyngor Cymuned na fyddai llecyn chware Ger y Llyn yn ail agor

- tan ddiwedd mis Hydref.  Nodwyd bod cwmni o ardal Sir Efrog wedi ei comissiynnu i ail adeiladu'r llecyn chware.  Nodwyd siomedigaeth gan Gynghorwyr na fod y cwmni a osodwyd y cyfarpar gwreiddiol wedi ei penodi.  Nodwyd gan y Clarc ei fod ar ddallt, a hyn ar lafar gan swyddog Grid Cenedlaethol, nad oedd hyn yn bosib gan na fod y cwmni a oedd yn ffafriedig gan y Cyngor Cymuned yn barod i gytuno at y telerau angenrheidiol a oedd yn ofynnol iddynt ei dderbyn.

- ***Cyrn Band Llanberis-Ysgol Dolbadarn.*** Nodwyd cynnwys y llythyr gan Brif Athrawes Ysgol Dolbadarn yn holi ynglyn a dyfodol y cyrn.  Nodwyd ei bod yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Cymuned ers peth amser bellach. Cadarnhawyd bydd y Clarc yn ymweld a'r Ysgol mor fuan a phosibl er cynnal trafodaethau gyda'r Prif Athrawes ac arbennigwr offerynnau cerdd. Bydd y Clarc yn adrodd yn ol i'r Cyngor Cymuned wedi'r ymweliad.

***18 Ceisiadau Cynllunio***

- ***Cais Rhif C23/0213/15/RA. Mynydd Gwefru.*** Cais Rhyddhau Amodau 7, 8, 9 a 10.
  Gwynedd | Council Direct | Application | 33965 (llyw.cymru)

  ***Dim sylwadau ar y cais gan y Cyngor Cymuned***

***19 Materion Ariannol***

- ***Ffioedd a Thaliadau – Y Fynwent-2024*** – gohirwyd trafodaeth i'r cyfarfod ym mis Hydref. Cytunwyd i oedi ar unrhyw gynydd mewn costau claddu am chwe mis oherwydd costau uwch.

- ***Sefydlu Pwyllgor Cyllid*** – nodwyd gan y Clarc y byddai yn fanteisiol pe byddai'r Cyngor Cymuned yn sefydlu Pwyllgor Cyllid.  Cytunwyd ar yr awgrym ac fe etholwyd y Cynghorwyr canlynnol i'r Pwyllgor Cyllid. Cyng. Iwan Harding. Cyng. Rhys ap Gwilym. Cyng. Iola Owen. Cyng. Heather Lynn Jones.

- Cadarnhau Taliadau.  Cadarnhawyd y taliadau canlynol:-
  - i. Glanhau Cysgodfan Bysus - **£80.00**
  - ii. Torri Gwair Y Fynwent - **£600.00**
  - iii. Taliadau Eraill - **£258.00**
  - iv. Torri Gwair yr hen Fynwent **- £500**

  **Yn y Banc -** Cyfrif Cyfredol **£00,000.00**

  Cyfrif Cadw = **£00.000**

  ***Cynnigwyd gan y Cyng. Iwan Harding.  Eilwyd gan y Cyng. Louise Price***

***20 Adroddiadau Cyrff Allanol*** – dim i'w adrodd.

***21 Hyfforddiant Cynghorwyr*** – atgoffwyd y Cynghorwyr o'r ymrwymiad a wnaethpwyd i fynychu dau gwrs pob blwyddyn calendr. Nodwyd yr angen i gadw bas data cyrsiau er adnabod cyrsiau a fynychwyd gan Gynghorwyr.

***22 Dyddiad y cyfarfod nesaf*** – 11eg Hydref 2023